Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

Deddf Cwmnïau 2006

Fel y cymhwyswyd ac yr addaswyd gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008

Cyfrifon ac Archwilio Ariannol

ar gyfer cyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2008

GBLLP2 Atodiad

May 2009

Fersiwn 2

BERR
Yr Adran Busnes,
Menter a Diwygio Rheoleiddio

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach gweler ein gwefan – www.companieshouse.co.uk neu e-bostiwch ein Hadran Ymholiadau ar enquries@companieshouse.gov.uk neu ffoniwch ein Canolfan Gysylltu ar 0303 1234 500.

Ydy'r canllaw hwn i chi?

Bydd y canllaw hwn yn berthnasol i chi:

- *os ydych yn paratoi cyfrifon ar gyfer cyfnodau'n dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2008.*

Ni fydd y canllaw hwn yn berthnasol:

- *os ydych yn paratoi cyfrifon ar gyfer cyfnodau'n dechrau cyn 1 Hydref 2008.*

Mae'r canllaw hwn ar gyfer cyfnodau cyfeirnod cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2008.

Ar gyfer cyfnodau cyfrifeg yn dechrau cyn 1 Hydref 2008 gweler canllaw GBLLP2

Rhaid bod yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddarllen y nodiadau canllaw hyn:

Mae Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2001, sy'n cymhwyso Deddf Cwmnïau 1985 at bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig (cyrff PAC), yn dal mewn grym, ond cawsant eu diddymu'n rhannol i'r graddau eu bod yn cymhwyso at gyrff PAC ddarpariaethau Deddf 1985 gyda golwg ar gyfrifon ac archwilio ariannol.

Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ynghylch cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006 at gyrff PAC a bydd yn cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006 at gyrff PAC o'r fath lle bo hynny'n briodol. Ond mae'n bosib na fyddir yn cymhwyso holl ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 at gyrff PAC yr un pryd ag y byddan nhw'n dod i rym ar gyfer cwmnïau.

Mae rhai (ond nid y cyfan) o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 wedi dod i rym ac wedi cael eu cymhwyso at gyrff PAC yn barod. Gan hynny, mae rhai o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 1985 yn dal yn berthnasol. Os hoffech chi wybod pa ddarpariaethau yn y Deddfau priodol sydd mewn grym, ymwelwch â'n gwefan www.companieshouse.gov.uk Mae dolen ar ein gwefan hefyd i wefan BERR (Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio) www.berr.gov.uk/bbf/co-act-2006/index.html lle gallwch chi weld rhagor o wybodaeth. Mae rhai darpariaethau yn Neddf Cwmnïau 2006 (gan gynnwys darpariaethau i'w cymhwyso at gyrff PAC) yn amodol ar drefniadau trosiannol. Cyhyd â phosib, eglurwn hyn yn y canllaw hwn a rhown fanylion ar ein gwefan.

Ar ôl mis Hydref 2008, bydd un cam pellach yng ngweithrediad Deddf Cwmnïau 2006 sydd wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 2009, pryd yr arfaethir hefyd gymhwyso gweddill darpariaethau perthnasol y Ddeddf honno at gyrff PAC. Byddwn yn diweddaru unrhyw nodiadau canllaw a effeithir gan y gweithredu hwnnw ar y pryd. Efallai yr hoffech chi gadw golwg ar ein gwefan hefyd lle byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth wrth i'r broses o weithredu barhau, fel y gallwch gael mynediad at y newyddion diweddaraf.

Pa newidiadau sydd wedi dod i rym yn barod ar gyfer cyrff PAC?

- Bydd cyrff PAC sydd â chyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 6 Ebrill 2008 yn cael naw mis i ffeilio'u cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau neu 21 mis o'r dyddiad corffori yn achos cyfrifon cyntaf.

Pryd bydd gweddill y newidiadau'n dod i rym ar gyfer cyrff PAC?

- Bydd y rheoliadau sy'n cymhwyso Rhannau 15, 16 a 42 o Ddeddf Cwmnïau 2006 gyda golwg ar gyfrifon, archwilio ariannol ac archwilwyr yn dod i rym ar gyfer cyfnodau cyfrifeg yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2008. Yr un pryd, bydd rheoliadau ynglŷn â ffurf a chynnwys cyfrifon cyrff PAC yn dod i rym. Mae'r rhain yn gyson â rheoliadau Deddf Cwmnïau 2006, gan ddarparu'n wahanol ar gyfer cyrff PAC bach, canolig a mawr.

- Bydd gweddill darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 yn dod i rym o 1 Hydref 2009 ymlaen a chaiff rhai o'r rheiny eu cymhwyso at gyrff PAC. Am wybodaeth bellach ynghylch y gweithredu, trowch i www.berr.gov.uk/bbf/llp/page39897.html

Tan 1 Hydref 2009, mae'r nodiadau canllaw hyn yn gymwys i gyrff PAC wedi eu ffurfio ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Rhaglennir wedyn i'r system ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon ymdoddi i un system ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

Cynnwys

Cyflwyniad

1. Dyddiadau cyfeirnod cyfrifeg
2. Cofnodion cyfrifeg
3. Cyfrifon i aelodau'r bartneriaeth PAC
4. Cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau
5. Cyrff PAC bach
6. Cyrff PAC canolig
7. Cyrff PAC segur
8. Archwilwyr ariannol
9. Ansawdd dogfennau papur
10. Gwybodaeth bellach

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn arweiniad ar gyfer pob Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC) i'r rheolau sy'n llywio datgeliad cyhoeddus cyfrifon. Darllenwch hwn ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol:

- Rheoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008 (O.S. 2008/1911)

- Rheoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Bach Atebolrwydd Cyfyngedig 2008 (O.S. 2008/1912)

- Rheoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Mawr a Chanolig Atebolrwydd Cyfyngedig 2008 (O.S. 2008/1913)

Mae'r canllaw yn ymwneud â thri phrif bwnc:

Dyddiadau cyfeirnod cyfrifeg.

Mae gan bob corff PAC ddyddiad cyfeirnod cyfrifeg, sef diwedd ei blwyddyn ariannol. Dyma hefyd y dyddiad sy'n penderfynu pryd y bydd cyfrifon yn ddyledus i'w cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Rhaid dweud wrth Dŷ'r Cwmnïau pan fyddwch chi wedi newid y dyddiad. Gall fod yn gostus os anghofiwch chi ddweud wrthym, gan baratoi cyfrifon ar gyfer y dyddiad anghywir. Os gwnewch hynny, fe wrthodwn gofrestru'r cyfrifon a bydd rhaid ichi baratoi cyfrifon newydd ar gyfer y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg sydd wedi ei gofnodi yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Paratoi a ffeilio cyfrifon.

Mae'n rhaid i bob corff PAC baratoi set o gyfrifon ar gyfer ei haelodau a set i'w ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau. Caiff cyrff PAC bach a chanolig ddewis cydymffurfio â gofynion ar wahân ar gyfer y cyfrifon y mae'n rhaid iddynt eu paratoi i'w haelodau a'r rhai y byddant yn eu ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau. Ar gyfer cyrff PAC mawr, mae'r ddwy set o gyfrifon yr un fath. Mae terfyn amser ar gyfer cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau gyfrifon derbyniol sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol. Os byddwch chi'n methu bodloni'r terfyn amser ac yn ffeilio'ch cyfrifon yn hwyr, codwn gosb awtomatig, a hynny'n ddieithriad. Felly mae'n bwysig i chi, i'ch cyfrifwyr ac i'ch archwilwyr ariannol os penodwyd fod yn ymwybodol o'r terfyn amser ar gyfer ffeilio.

Nid yw gofynion a therfynau amser Deddf Cwmnïau 2006 yr un fath â rhai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu gyrff rheoleiddio eraill fel yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Cyfrifoldeb yr aelodau yw bod yn ymwybodol o'r gwahanol ofynion.

Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar y cyfrifon a'r adroddiadau y mae'n rhaid i gyrff PAC bach a chanolig eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Mae cyrff PAC mawr yn ddarostyngedig i ofynion mwy cymhleth o ran ffurf a chynnwys cyfrifon. Darllenwch y ddeddfwriaeth berthnasol am wybodaeth bellach.

Nid yw'r canllaw hwn yn trafod cynnwys manwl cyfrifon a gaiff eu llunio o dan Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol.

Cynnwys y cyfrifon.

Ni all y canllaw hwn ddweud wrthych chi sut i baratoi cyfrifon corff PAC. Dylech chi ystyried ceisio cyngor proffesiynol. Ond mi fydd yn dweud wrthych chi pa ddogfennau sy'n gwneud set o gyfrifon, pa eithriadau y gall fod modd ichi fanteisio arnyn nhw a ph'un a fydd angen ichi benodi archwilydd ariannol a chyflwyno set o gyfrifon wedi eu harchwilio'n ffurfiol.

Pennod 1
Dyddiadau cyfeirnod cyfrifeg

1. Beth yw blwyddyn ariannol?

Mae blwyddyn ariannol fel arfer yn gyfnod 12 mis y mae'n rhaid ichi baratoi datganiadau ariannol blynyddol ar ei gyfer. Rhaid i bob PAC baratoi cyfrifon blynyddol yn cyfleu ei pherfformiad a'i gweithgareddau yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd hon yn dechrau'r diwrnod ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf neu, yn achos PAC newydd, ar y dyddiad corffori (nid pan ddechreuodd y BAC fasnachu).

Pennir y flwyddyn ariannol yn ôl y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg.

Daw'r cyfnod cyfeirnod cyfrifeg i ben ar y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg – gweler cwestiwn 2 ym mhennod 1 – neu ar ddyddiad hyd at saith diwrnod y naill ochr neu'r llall iddo os bydd hynny'n fwy cyfleus.

2. Sut pennir y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Ar gyfer pob PAC newydd, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu'r dyddiad cyfeirnod cyfrifeg cyntaf i syrthio flwyddyn union ar ôl diwrnod ola'r mis y cafodd y BAC ei chorffori. Caiff dyddiadau cyfeirnod cyfrifeg dilynol eu pennu'n awtomatig ar yr un diwrnod bob blwyddyn.

Er enghraifft, os cafodd y BAC ei chorffori ar 6 Ebrill 2009, yna 30 Ebrill 2010 a bennid yn ddyddiad cyfeirnod cyfrifeg cyntaf iddi a 30 Ebrill bob blwyddyn wedyn. **Felly, bydd ei blwyddyn ariannol gyntaf yn rhedeg o 6 Ebrill 2009 hyd 30 Ebrill 2010, ei hail flwyddyn ariannol o 1 Mai 2010 hyd 30 Ebrill 2011. Bydd pob blwyddyn ariannol ddilynol yn rhedeg o 1 Mai hyd 30 Ebrill, oni bai bod y BAC yn newid ei chyfnod cyfrifeg.**

3. Oes modd imi newid y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Oes. Cewch newid y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg cyfredol neu'r un blaenorol drwy estyn neu fyrhau'r cyfnod. Er mwyn gwneud hyn, rhaid ichi roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau ar ffurflen newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg (Ffurflen LLP225). Rhaid ichi gyflwyno ffurflen newid-DCC dderbyniol cyn y terfyn amser ar gyfer ffeilio cyfrifon y cyfnod sydd i'w newid – gweler pennod 10 cwestiwn 2 i ddysgu sut i gyrchu'r ffurflen hon. Mewn geiriau eraill, os yw Tŷ'r Cwmnïau'n disgwyl cyfrifon ar gyfer cyfnod cyfeirnod cyfrifeg arbennig a bod y rheiny'n mynd yn orddyledus, mae'n rhy hwyr i ddweud eich bod am newid y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg.

Fel arfer, bydd gan gyrff PAC naw mis i gyflwyno'u cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau wedi diwedd pob cyfnod cyfeirnod cyfrifeg. Mae'r cyfnodau a ganiateir ar gyfer anfon cyfrifon cynta'r BAC ac ar gyfer newid ei dyddiad cyfeirnod cyfrifeg yn wahanol, ac eglurwn hyn ym mhennod 4.

Dylech chi gadw mewn cof y diffiniad o gyfnod o fisoedd mewn cysylltiad â ffeilio cyfrifon:

Bydd cyfnod o fisoedd ar ôl dyddiad penodedig yn dod i ben ar y dyddiad cyfatebol yn y mis priodol. Er enghraifft, bydd PAC y pennwyd 8 Ebrill fel dyddiad cyfeirnod cyfrifeg iddi yn cael cyfnod o naw mis tan ganol nos ar 8 Ionawr y flwyddyn ddilynol i gyflwyno'i chyfrifon, *nid 31 Ionawr*.

Nid yw hyn yn gymwys lle mae'ch dyddiad cyfeirnod cyfrifeg yn syrthio ar ddydd ola'r mis. Os dyma sy'n wir, byddai'r cyfnod a gaiff ei ganiatáu i ffeilio cyfrifon yn dod i ben ar ddydd ola'r mis priodol. Er enghraifft, bydd PAC y pennwyd 30 Ebrill fel dyddiad cyfeirnod cyfrifeg iddi yn cael tan ganol nos ar 31 Ionawr y flwyddyn ddilynol i gyflwyno'i chyfrifon, *nid 30 Ionawr.*

4. Oes yna gyfyngu o ran newid y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Cewch newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg drwy fyrhau cyfnod cyfeirnod cyfrifeg mor aml ag y dymunwch a chan gymaint o fisoedd ag y dymunwch.

Ond mae cyfyngiadau o ran estyn cyfnodau cyfeirnod cyfrifeg:

- Ni chewch chi estyn cyfnod fel y bydd yn parhau am fwy na 18 mis o ddyddiad dechrau'r cyfnod cyfrifeg, oni bai bod y BAC yn nwylo'r gweinyddydd.
- Ni chewch chi estyn mwy nag unwaith mewn pum mlynedd, oni bai bod:
    - y BAC yn nwylo'r gweinyddydd; neu
    - bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfarwyddo felly; neu
    - bod y BAC yn cydweddu ei dyddiad cyfeirnod cyfrifeg â dyddiad is-gwmni neu riant-gwmni wedi ei sefydlu o dan gyfraith y DU neu gyfraith gwladwriaeth arall sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Dyma wledydd yr AEE:

Awstria	Malta
Belg	Norwy
Bwlgaria	Pwyl
Cyprus	Portiwgal
Denmarc	Romania
Estonia	Sbaen
Ffrainc	Slofacia
Groeg	Slofenia
Gweriniaeth y Tsieciaid	Sweden
Hwngari	Y Deyrnas Unedig
Iwerddon	Y Ffindir

Latfia	Ynys yr Iâ
Liechtenstein	Yr Almaen
Lithwania	Yr Eidal
Lwscembwrg	Yr Iseldiroedd

5. Oes yna gyfyngiadau ychwanegol wrth newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg cynta'r BAC?

Nac oes. Mae'r cyfyngiadau ar gyfer newid unrhyw gyfnod yr un fath â'r rhai a ddisgrifiwyd yng nghwestiwn 4 pennod 1 uchod.

Mae'n werth cadw mewn cof wrth geisio estyn eich cyfnod cyfrifeg cyntaf i'r uchafswm o 18 mis, fod rhaid ichi gyfri'r dyddiad corffori fel diwrnod cynta'r cyfnod, ni waeth pa bryd y dechreuwyd masnachu. Bydd llawer o gyrff PAC yn gwneud y camgymeriad o ychwanegu chwe mis at ddiwedd y cyfnod, a fydd yn estyn y cyfnod ymhellach na 18 mis.

Pennod 2
Cofnodion Cyfrifeg

1. Beth yw cofnodion cyfrifeg?

Mae cofnodion cyfrifeg yn gofnodion sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BAC ac i ddatgelu (yn rhesymol o fanwl-gywir) ei sefyllfa ariannol ar unrhyw adeg arbennig. Rhaid i'r aelodau allu paratoi cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cwmnïau ar sail y cofnodion cyfrifeg.

2. Oes rhaid i bob PAC gadw cofnodion cyfrifeg?

Oes. Mae'n rhaid i bob PAC, p'un a fo'n masnachu neu beidio, gadw cofnodion cyfrifeg.

3. Beth y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cofnodion cyfrifeg?

Rhaid i gofnodion cyfrifeg gynnwys:

- cofnodion yn dangos pob arian a ddaeth i law ac a gafodd eu gwario gan y BAC; a hefyd
- cofnod o'r asedion a'r rhwymedigaethau.

At hyn, lle mae busnes y BAC yn golygu delio mewn nwyddau, mae'n rhaid i'r cofnodion gynnwys:

- datganiadau o'r stoc sydd yn nwylo'r BAC ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol;
- pob datganiad cymryd stoc y caiff neu y cafodd unrhyw ddatganiadau stoc eu paratoi ar ei sail; a hefyd

- datganiad o'r holl nwyddau a gafodd eu gwerthu a'u prynu, ac eithrio drwy fasnach fanwerthu arferol. Dylai hwn restru'r nwyddau, y prynwyr a'r gwerthwyr.

Rhaid i riant BAC gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw is-gwmni'n cadw cofnodion cyfrifeg digonol fel bod modd i aelodau'r rhiant baratoi cyfrifon sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cwmnïau, gan gynnwys lle caiff y cyfrifon eu paratoi drwy ddilyn Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol.

4. Ble mae'n rhaid i'r BAC gadw'r cofnodion cyfrifeg?

Rhaid i gofnodion cyfrifeg PAC gael eu cadw yn ei swyddfa gofrestredig neu mewn man a wêl yr aelodau yn addas. Rhaid i'r cofnodion fod yn agored i gael eu harchwilio gan aelodau'r BAC ar bob adeg.

Os yw'r BAC yn cadw'r cofnodion rywle y tu allan i'r DU, rhaid iddi anfon cyfrifon a ffurflenni blynyddol yn cyfleu manylion y busnes a drafodwyd, o leiaf bob chwe mis a'u cadw yn y DU. Rhaid i'r cyfrifon a'r ffurflenni hynny ddatgelu'r sefyllfa ariannol a galluogi'r aelodau i baratoi cyfrifon sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cwmnïau, gan gynnwys lle caiff y cyfrifon eu paratoi drwy ddilyn Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol.

5. Pa mor hir y mae'n rhaid i'r BAC gadw cofnodion?

Rhaid i BAC gadw cofnodion cyfrifeg am dair blynedd ar ôl dyddiad eu llunio.

Pennod 3
Cyfrifon i aelodau'r BAC

1. Pwy sy'n gyfrifol am baratoi cyfrifon?

Rhaid i aelodau pob PAC baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyfrifon unigol y gelwir y rhain. Rhaid i riant BAC hefyd baratoi cyfrifon grŵp (ond ar gyfer rhiant-cyrff PAC sydd wedi eu diffinio'n fach – gweler pennod 5 – mae hyn yn ddewisol).

2. Beth yw cynnwys set o gyfrifon?

At ei gilydd, mae'n rhaid i gyfrifon gynnwys:

- adroddiad archwilio ariannol (oni bai bod y BAC wedi ei heithrio rhag archwiliad ariannol);
- cyfrif elw a cholled;
- mantolen wedi ei llofnodi gan aelod dynodedig;
- nodiadau i'r cyfrifon; a hefyd

- cyfrifon grŵp (lle bo hynny'n briodol)

Nodyn: ni all y canllaw hwn fanylu ar yr holl wybodaeth y mae'n rhaid i'r dogfennau uchod ei chynnwys - ar gyfer hyn, gweler y rheoliadau perthnasol.

3. Pa gyfnod y mae'n rhaid i'r cyfrifon ei fodloni?

Rhaid i gyfrifon cynta PAC fodloni cyfnod yn dechrau ar ddyddiad y corffori, nid y diwrnod masnachu cyntaf. Deuant i ben ar y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg neu hyd at saith diwrnod y naill ochr neu'r llall i'r dyddiad hwnnw. Ymdriniwyd ym mhennod 1 â dyddiadau cyfeirnod cyfrifeg a sut i'w newid.

Bydd cyfnodau dilynol yn dechrau'r diwrnod ar ôl i'r cyfrifon blaenorol ddod i ben ac yn gorffen ar y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg neu hyd at saith diwrnod ynghynt neu wedyn.

Er enghraifft, os caiff PAC ei chorffori ar 3 Hydref 2008, rhaid i'r cyfrifon fodloni cyfnod cyfan 3 Hydref 2008 – 31 Hydref 2009. Bydd cyfnodau dilynol yn dechrau ar 1 Tachwedd bob blwyddyn ac yn dod i ben ar 31 Hydref y flwyddyn nesaf.

Cewch newid hyn drwy fyrhau neu estyn cyfnod arbennig fel ei fod yn dod i ben ar ddyddiad gwahanol – gweler pennod 1.

4. Pwy sydd i dderbyn copi o'r cyfrifon?

Rhaid i bob PAC anfon copi o'i chyfrifon blynyddol ac adroddiad yr archwilydd (lle bo hwnnw'n gymwys) ar gyfer pob blwyddyn ariannol at:-

- bob aelod o'r BAC; a
- phob un o ddyledebwyr y BAC.

Rhaid i'r BAC anfon cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau hefyd. Mae Pennod 4 yn manylu ar hyn.

5. Oes modd i BAC gytuno i ddefnyddio gwefan fel y gall yr aelodau weld y cyfrifon?

Oes. Gall yr aelodau gytuno'n fewnol fod modd i BAC anfon neu gyflenwi dogfennau, gan gynnwys cyfrifon, drwy eu cyhoeddi ar y wefan.

6. Pwy all gymeradwyo a llofnodi cyfrifon?

Rhaid i aelodau'r BAC gymeradwyo'r cyfrifon a threfnu iddyn nhw gael eu llofnodi ar eu rhan gan aelod dynodedig. Rhaid i'r llofnod fod ar y fantolen a rhaid i unrhyw ddatganiad ynglŷn â pharatoi'r cyfrifon o dan y drefn ar gyfer gyrff PAC bach ymddangos uwchlaw'r llofnod.

Os oes rhaid i'r BAC atodi adroddiad archwilydd ariannol wrth y cyfrifon, rhaid i'r archwilydd ei lofnodi a'i ddyddio a rhaid i'r adroddiad nodi enw'r archwilydd.

Lle bo'r archwilydd ariannol yn gwmni, rhaid i adroddiad yr archwilydd nodi enw'r archwilydd ac enw'r sawl a'i llofnododd ar ran y cwmni fel uwch-archwilydd statudol – gweler cwestiwn 7 isod.

- Lle bo'r BAC yn atodi adroddiad archwilio arbennig wrth gyfrifon cryno a gaiff eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau, rhaid i'r archwilydd ariannol ei lofnodi. Lle mae'r achwilydd ariannol yn gwmni, rhaid i rywun sydd wedi ei (h)awdurdodi i lofnodi ar ei ran wneud hynny yn enw'r cwmni.

Sylwer: ni all Tŷ'r Cwmnïau dderbyn enw teipiedig fel llofnod ar gyfrifon.

7. Oes yna eithrio rhag nodi enw'r archwilydd ariannol ar adroddiad yr archwilydd neu'r adroddiad archwilio arbennig?

Oes. Am ragor o fanylion, gweler 1.5 ym mhennod 8 – Archilwyr Ariannol.

Pennod 4
Cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau

1. Ydy'r cyfrifon a gaiff eu ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau yn wahanol i'r rhai a baratoir i'r aelodau?

Gall yr aelodau dynodedig (sy'n gyfrifol am ffeilio cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau) ffeilio'n syml gopi o'r cyfrifon a gafodd eu paratoi eisoes i'r aelodau. Ond gall cyrff PAC bach a chanolig ffeilio fersiwn cryno o'r cyfrifon hynny, yn cynnwys llai o fanylion drwy gyfuno rhai eitemau.

Am y rhwymedigaethau ffeilio llawn, cyfeiriwch at y rheoliadau perthnasol a gafodd eu rhestru yn y Cyflwyniad.

2. Oes rhaid i bob PAC ffeilio cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau?

Oes.

3. Oes angen o hyd imi ffeilio fy nghyfrifon gydag HMRC a chyrff rheoleiddio eraill?

Oes. Mae cyfrifon a gaiff eu ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 fel y caiff honno ei chymhwyso at gyrff PAC. Rhaid ichi ffeilio gyda chyrff rheoleiddio eraill yr un fath yn unol â'u gofynion nhw a'u terfynau amser ar gyfer ffeilio.

4. A fydd Tŷ'r Cwmnïau yn rhoi cyngor technegol ynghylch cyfrifon?

Na fydd. Dim ond cyfarwyddyd cyffredinol y gallwn ei roi, nid cyngor technegol ar faterion cyfrifeg neu bynciau cyfreithiol penodol. Mae'ch cyfrifon yn dibynnu

ar ofynion cyfreithiol, a does gennym y cymwysterau i allu rhoi ichi gyngor arbenigol.

Hwyrach yr hoffech chi ystyried ymgynghori â chyfrifydd os bydd angen y math hwn o gyngor arnoch.

5. Pa mor hir sydd gen i i ffeilio cyfrifon cyntaf fy nghwmni?

Os ydych chi'n ffeilio cyfrifon cyntaf eich cwmni a'u bod yn cyfeirio at gyfnod o fwy na 12 mis, rhaid eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau:

- o fewn 21 mis i'r dyddiad corffori neu
- dri mis i'r dyddiad cyfeirnod cyfrifeg, p'un bynnag fo hiraf. Bwrir cyfrif o'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau i'r union ddydd.

Er enghraifft, bydd PAC a gorfforwyd ar **1 Tachwedd 2008** ac y pennwyd 30 Tachwedd fel dyddiad cyfeirnod cyfrifeg iddi, yn cael tan ganol nos ar **1 Awst 2010** (21 mis yn union ar ôl y dyddiad corffori) i gyflwyno'i chyfrifon, *nid 31 Awst*.

Os yw'r cyfrifon cynta'n bodloni cyfnod o 12 mis neu lai, mae'r cyfnodau arferol a ganiateir ar gyfer cyflwyno cyfrifon yn gymwys (gweler cwestiwn 6 isod).

6. Pa mor hir sydd gen i fel arfer i ffeilio fy nghyfrifon?

Oni bai eich bod yn ffeilio cyfrifon cynta'ch cwmni (gweler cwestiwn 5 uchod), yr amser a gaiff ei ganiatáu fel arfer i gyflwyno cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau yw:

- naw mis o'r dyddiad cyfeirnod cyfrifeg.

Dylech chi gadw mewn cof sut y bwrir cyfrif o'r cyfnod o fisoedd a gaiff ei ganiatáu i ffeilio cyfrifon:

Bydd cyfnod o fisoedd ar ôl dyddiad penodedig yn dod i ben ar y dyddiad cyfatebol yn y mis priodol. Er enghraifft, bydd PAC y pennwyd 8 Ebrill fel dyddiad cyfeirnod cyfrifeg iddi yn cael tan ganol nos ar 8 Ionawr y flwyddyn ddilynol i gyflwyno'i chyfrifon, *nid 31 Ionawr*.

Nid yw hyn yn gymwys lle mae'ch dyddiad cyfeirnod cyfrifeg yn syrthio ar ddydd ola'r mis. Os dyma sy'n wir, byddai'r cyfnod a gaiff ei ganiatáu i ffeilio cyfrifon yn dod i ben ar ddydd ola'r mis priodol. Er enghraifft, bydd PAC y pennwyd 30 Ebrill fel dyddiad cyfeirnod cyfrifeg iddi yn cael tan ganol nos ar 31 Ionawr y flwyddyn ddilynol i gyflwyno'i chyfrifon, *nid 30 Ionawr.*

7. Os bydda i'n byrhau'r cyfnod cyfeirnod cyfrifeg, oes rhaid imi ffeilio erbyn y terfyn amser gwreiddiol o hyd?

Nac oes. Wrth i BAC fyrhau ei chyfnod cyfrifeg, y terfyn amser newydd ar gyfer ffeilio fydd, yn awtomatig, naill ai:

- **naw mis** o'r dyddiad cyfeirnod cyfrifeg newydd; neu
- **dri mis o ddyddiad derbyn yr hysbysiad** (ffurflen rhoi gwybod am newid dyddiad cyfeirnod cyfrifeg), p'un bynnag fo hiraf.

8. Ga i wneud cais am fwy o amser i ffeilio?

Cewch. Os oes rheswm arbennig dros wneud, gellir gwneud cais am estyn yr amser ar gyfer cyflwyno cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau: er enghraifft, os buodd digwyddiad na ragwelwyd ac a oedd y tu hwnt i reolaeth y BAC a'i harchwilwyr ariannol.

Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig a chael ei gyflwyno **cyn** y terfyn amser arferol ar gyfer ffeilio. Rhaid iddo gynnwys esboniad llawn o resymau'r estyniad a hyd yr estyniad sydd eisiau.

Ar gyfer cyrff PAC wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr:	**Ar gyfer cyrff PAC wedi eu corffori yn yr Alban:**
Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ neu DX33050 Caerdydd 1	Companies House 4th Floor Edinburgh Quay 2 139 Fountainbridge Edinburgh EH3 9FF DX ED235 Edinburgh 1 neu LP – 4 Edinburgh 2

9. Beth os bydd y BAC yn cyflwyno'i chyfrifon yn hwyr?

Caiff cosb sifil ei gosod ar y BAC am ffeilio cyfrifon yn hwyr. Mae'r swm yn dibynnu ar ba mor hwyr y bydd y cyfrifon yn dod i law. Am ragor o wybodaeth ynghylch cosbau ffeilio hwyr, gweler pennod 5 o GBLLP2 Gweinyddu a Rheoli.

10. Beth os yw'r terfyn amser ar gyfer ffeilio yn syrthio ar ddydd Sul neu Ŵyl Banc?

Os yw'r terfyn amser ar gyfer ffeilio yn dod i ben ar ddydd Sul neu Ŵyl Banc, mae'r gyfraith o hyd yn mynnu i'r aelodau dynodedig ffeilio cyfrifon erbyn y

dyddiad hwnnw. Felly, dylech chi ofalu eich bod yn anfon cyfrifon derbyniol mewn pryd fel eu bod yn cyrraedd **cyn** terfyn amser o'r fath.

Y dyddiad y ceir yn Nhŷ'r Cwmnïau gyfrifon **derbyniol** yn bodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol sy'n bwysig, nid dyddiad anfon y cyfrifon.

11. Beth os na wna i gyflwyno cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau o gwbl?

Mae methiant i gyflwyno dogfennau'n brydlon yn **dramgwydd troseddol**. Bydd aelodau dynodedig y BAC yn agored i gael eu herlyn. O'i gollfarnu/chollfarnu, gallai aelod dynodedig gael cofnod troseddu a dirwy o hyd at £5,000 am bob tramgwydd. Bydd hyn ar wahân i'r gosb sifil a gaiff ei gosod ar y BAC am gyflwyno cyfrifon yn hwyr.

Fel arall, os cred y Cofrestrydd nad yw'r BAC yn gweithredu nac yn dilyn busnes mwyach, gallai ddileu ei henw o'r gofrestr a'i datod. Os dyma sy'n digwydd, mae holl asedion y BAC, gan gynnwys ei chyfrif banc a'i heiddo, yn dod yn eiddo i'r Goron.

12. Alla i gyflwyno cyfrifon mewn unrhyw iaith?

Os paratowch gyfrifon mewn iaith ar wahân i'r Saesneg, rhaid ichi hefyd anfon cyfieithiad i'r Saesneg gyda nhw. Ond os yw swyddfa gofrestredig y bartneriaeth PAC yng Nghymru, cewch anfon cyfrifon Cymraeg yn unig os dewiswch chi.

Pennod 5
Cyrff PAC bach

Beth yw PAC fach?

Mae tri maint PAC i'w hystyried wrth baratoi'ch cyfrifon: bach, canolig neu fawr. Mae yna drothwyon yng nghyswllt trosiant busnes, cyfanswm y fantolen (sy'n golygu cyfanswm yr asedion) a nifer cyfartalog y gweithwyr i benderfynu a yw'ch PAC yn fach neu'n ganolig. PAC mawr yw unrhyw rai nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer PAC fach neu ganolig a bydd yn rhaid iddynt baratoi a ffeilio cyfrifon llawn.

Gall PAC fach baratoi a ffeilio cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig Deddf Cwmnïau 2006 fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC, a'r rheoliadau perthnasol. Mae hyn yn golygu bod modd iddi ddewis datgelu llai o wybodaeth na PAC ganolig neu fawr.

Ni all cyrff PAC y derbynnir eu gwarannoedd ar gyfer masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio o fewn yr AEE na rhai cyrff PAC gwasanaeth ariannol fod yn gymwys fel rhai bach. Yn yr un modd, ni all cyrff PAC sy'n rhan o grŵp sydd ag aelodau sy'n gwmnïau cyhoeddus neu'n cyrff PAC gwasanaeth ariannol fod yn gymwys fel rhai bach, ac eithrio o dan amgylchiadau arbennig – gweler cwestiwn 1.2 isod.

Os teimlwch fod eich PAC chi yn gymwys fel un fach, hwyrach yr hoffech ymgynghori â chyfrifydd proffesiynol cyn paratoi cyfrifon yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i gyrff PAC yn dibynnu ar y drefn cyrff PAC bach.

1 Bod yn gymwys fel un fach

1.1. Beth yw'r amodau i fod yn gymwys fel PAC fach?

Rhaid i BAC fach fodloni o leiaf dau o'r amodau canlynol:

- rhaid i'r trosiant busnes blynyddol beidio â bod yn fwy na £6.5 miliwn;
- rhaid i gyfanswm y fantolen beidio â bod yn fwy na £3.26 miliwn;
- rhaid i nifer cyfartalog y gweithwyr beidio â bod yn fwy na 50.

Os nad dyma gyfnod cyfrifeg cynta'r BAC, rhaid iddi fod wedi bod yn gymwys fel un fach yn y cyfnod blaenorol – gweler 1.3.

1.2 Oes yna gyrff PAC na allan nhw baratoi a chyflwyno cyfrifon bach?

Oes. Os yw PAC, neu os oedd unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol, yn un o'r canlynol, ni chaiff baratoi a chyflwyno cyfrifon PAC fach:

- PAC y derbynnir ei gwarannoedd ar gyfer masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio yn un o wladwriaethau'r AEE;
- PAC sydd:-
  - yn gwmni yswiriant awdurdodedig, yn BAC fancio, yn ddosbarthydd e-arian, yn gwmni buddsoddi o dan drefn MiFID neu yn gwmni rheoli sy'n perthyn i UCITS, neu
  - yn dilyn gweithgarwch yn y farchnad yswiriant, neu
- aelod o grŵp anghymwys.

Mae grŵp yn anghymwys os yw unrhyw un o'i aelodau:

- yn gwmni cyhoeddus;
- yn gorff corfforaethol (ar wahân i gwmni) y caiff ei gyfrannau eu derbyn i'w masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio yn un o wladwriaethau'r AEE;
- yn berson (ar wahân i gwmni bach neu BAC fach) sydd â chaniatâd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (c.8) i ddilyn gweithgarwch wedi ei reoleiddio;

- yn gwmni bach neu'n BAC fach sy'n gwmni yswiriant awdurdodedig, yn gwmni bancio neu'n BAC fancio, yn ddosbarthydd e-arian, yn gwmni buddsoddi o dan drefn MiFID neu'n gwmni rheoli sy'n perthyn i UCITS; neu

- yn berson sy'n dilyn gweithgarwch yn y farchnad yswiriant.

Os bydd gennych chi unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyrff PAC gwasanaeth ariannol sydd wedi eu heithrio rhag y drefn cyrff PAC bach, cysylltwch â'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ar eu gwefan www.fsa.gov.uk/pages/index.shtml

1.3 A all PAC fod yn gymwys fel un fach bob blwyddyn?

At ei gilydd, bydd PAC yn gymwys fel un 'fach' yn ei chyfnod cyfrifeg cyntaf os yw'n bodloni'r amodau yn y flwyddyn honno. Mewn unrhyw gyfnodau dilynol, mae'n rhaid i'r BAC fodloni'r amodau yn y cyfnod hwnnw a'r cyfnod blaenorol.

Ond os nad yw PAC oedd yn gymwys mewn un cyfnod yn cwrdd â'r meini prawf mwyach ar gyfer bod yn fach yn y cyfnod nesaf, caiff y BAC barhau i hawlio'r eithriadau sydd ar gael ar gyfer y cyfnod nesaf. Os bydd y BAC honno wedyn yn mynd yn ôl i fod yn fach drwy fodloni'r meini prawf, bydd yr eithrio'n parhau'n ddi-dor.

1.4 Beth yw'r amodau ar gyfer bod yn gymwys fel grŵp bach?

I fod yn gymwys fel un bach, rhaid i grŵp y mae rhiant PAC yn ben arno fodloni o leiaf dau o'r amodau canlynol:

- rhaid i'r trosiant cyfanred beidio â bod yn fwy na £6.5 miliwn net (neu £7.8 miliwn gros);
- rhaid i gyfanswm cyfanred y mantolenni beidio â bod yn fwy na £3.26 miliwn net (neu £3.9 miliwn gros); a
- rhaid i nifer cyfartalog cyfanred y gweithwyr beidio â bod yn fwy na 50.

Os nad dyma gyfnod cyfrifeg cynta'r riant PAC, rhaid iddi fod wedi bod yn gymwys fel un fach yn y cyfnod blaenorol – gweler 1.3.

2 Cyfrifon PAC Fach

2.1 Beth yw cynnwys cyfrifon PAC fach?

At ei gilydd, mae'n rhaid i gyfrifon PAC fach a gaiff eu paratoi i'r aelodau gynnwys:

- adroddiad archwilio ariannol (oni bai bod y BAC yn gymwys i'w heithrio rhag archwilio a'i bod yn manteisio ar yr eithrio hwnnw);

- cyfrif elw a cholled;
- mantolen lawn wedi ei llofnodi gan aelod dynodedig;
- nodiadau i'r cyfrifon; a hefyd
- cyfrifon grŵp (lle bo rhiant PAC fach yn dewis eu paratoi).

Rhaid i'r fantolen gynnwys datganiad mewn lle amlwg i'r perwyl bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau arbennig sy'n gymwys i gyrff PAC yn dibynnu ar drefn y gyrff PAC bach.

2.2 Pa eithriadau sydd ar gael i gyrff PAC bach?

Caiff cyrff PAC bach baratoi a ffeilio cyfrifon symlach, llai manwl na'r rhai sydd angen ar gyfer cyrff PAC mawr a chanolig eu maint.

Mae'r gofynion ar gyfer cyrff PAC sy'n dibynnu ar drefn y gyrff PAC bach wedi eu gosod yn Rhannau 15 a 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC. Mae gwybodaeth bellach am ddiwyg a chynnwys manwl cyfrifon cyrff PAC bach i'w chael yn Rheoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Bach Atebolrwydd Cyfyngedig 2008 (O.S. 2008/1912).

2.3 Beth mae'n rhaid i BAC fach ei gyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau?

Caiff aelodau dynodedig PAC ffeilio copi o'r cyfrifon a baratoes i'w haelodau o dan y drefn PAC fach neu fe gânt gyflwyno fersiwn cryno o'r rheiny. Mae cynnwys cyfrifon cryno yn unol â'r Ddeddf Cwmnïau i'w weld yn Neddf Cwmnïau 2006 fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC, ac yn rheoliad 5 ac Atodlen 3 i Reoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Bach Atebolrwydd Cyfyngedig 2008.

Os crynhowch y cyfrifon, bydd arnoch chi hefyd angen adroddiad archwilio ariannol arbennig y mae'n rhaid iddo ddweud bod gan y BAC, ym marn yr archwilydd:

- hawl i gyflwyno cyfrifon cryno yn unol ag adran 444(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008), a

- bod y rheiny wedi eu paratoi'n briodol yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Bach Atebolrwydd Cyfyngedig 2008. Does dim angen yr adroddiad hwn os yw'r BAC wedi ei heithrio rhag archwilio ariannol a bod yr aelodau wedi manteisio ar yr eithrio hwnnw – gweler pennod 5, Rhan 3, ar eithrio cyrff PAC bach rhag archwilio ariannol.

Nid yw'r hawl i baratoi cyfrifon cryno ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau yn effeithio ar rwymedigaethau'r BAC i baratoi cyfrifon llawn i'w haelodau – gweler pennod 3.

Does dim rhaid i gyrff PAC bach gyflwyno copi o'r cyfrif elw a cholled i Dŷ'r Cwmnïau.

Caiff cyrff PAC bach sy'n paratoi cyfrifon sydd heb ddilyn Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (IAS) gyflwyno mantolen gryno.

Rhaid i gyrff PAC bach sy'n paratoi cyfrifon yn unol â Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol gyflwyno mantolen lawn i Dŷ'r Cwmnïau.

Os paratowch gyfrifon yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i gyrff PAC bach, p'un a fydd y rheiny'n gryno neu beidio, mae'n rhaid ichi gynnwys datganiad mewn lle amlwg ar y fantolen ac uwchlaw llofnod yr aelod dynodedig i'r perwyl bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau arbennig sy'n gymwys i gyrff PAC yn dibynnu ar y drefn cyrff PAC bach.

2.4 Oes rheolau arbennig i grwpiau bach?

Oes. Does dim angen i riant PAC sy'n gymwys fel un fach baratoi cyfrifon grŵp na'u hanfon i Dŷ'r Cwmnïau os yw'r grŵp yn un bach a heb fod yn anghymwys - gweler pennod 5, paragraff 1.2 uchod.

Os paratowch gyfrifon grŵp, mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys datganiad uwchlaw'r llofnod ar y fantolen yn cadarnhau eu bod wedi eu paratoi yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i gyrff PAC yn dibynnu ar y drefn PAC bach.

3 Eithrio cyrff PAC bach rhag archwilio ariannol

3.1. Pa eithriadau sydd ar gael?

Caiff rhai cyrff PAC bach eu heithrio rhag archwilio ariannol os ydyn nhw'n gymwys ac am fanteisio ar y ddarpariaeth. Rhoir manylion pellach am sut i hawlio rhyddhad yn y bennod hon.

3.2. Pa gyrff PAC bach sy'n gymwys i'w heithrio rhag archwilio ariannol?

I fod yn gymwys i'w heithrio rhag archwilio ariannol, mae'n rhaid i BAC:

- fod yn un fach (gweler pennod 5, cwestiwn 1);
- bod â throsiant busnes sydd heb fod yn fwy na £6.5 miliwn; a
- bod â chyfanswm mantolen sydd heb fod yn fwy na £3.26 miliwn.

3.3 Ydy pob math o gyrff PAC fach yn gymwys i'w heithrio?

Nac ydy. Rhaid i'r aelodau dynodedig ffeilio cyfrifon archwiliedig yn Nhŷ'r Cwmnïau os yw'r BAC yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau canlynol:

- PAC y derbynnir ei gwarannoedd ar gyfer masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio yn un o wladwriaethau'r AEE;

- PAC sydd:-

  - yn gwmni yswiriant awdurdodedig, yn BAC fancio, yn ddosbarthydd e-arian, yn gwmni buddsoddi o dan drefn MiFID neu yn gwmni rheoli sy'n perthyn i UCITS, neu

  - yn dilyn gweithgarwch yn y farchnad yswiriant, neu

- gymdeithas gyflogwyr yn unol â diffiniad adran 122 o Ddeddf (Cydgyfnerthu) Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur 1992 (c. 52) neu Erthygl 4 o Orchymyn Cysylltiadau Diwydiannol (Gogledd Iwerddon) 1992

- rhiant BAC neu is-ymgymeriad (onid oedd yn segur yn ystod y cyfnod pan fuodd yn is-ymgymeriad), ac eithrio:

  - lle mae'r grŵp yn gymwys fel grŵp bach (gan drin pob corff corfforaethol yn y grŵp fel pe bai'n BAC neu'n gwmni) ac nad oedd unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn yn grŵp anghymwys;

  - lle nad yw trosiant busnes y grŵp cyfan yn fwy na £6.5 miliwn net (neu £7.8 miliwn gros); a

- lle nad yw cyfanswm mantolenni cyfunol y grŵp yn fwy na £3.26 miliwn net (neu £3.9 miliwn gros).

3.4 Beth sydd angen i BAC a gafodd ei heithrio rhag archwilio ariannol ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Os yw PAC yn gymwys (gweler Pennod 5, cwestiwn 3.2), caiff gyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau gyfrifon heb eu harchwilio ar ffurf mantolen gryno a nodiadau, neu, os yw'n dewis, cyfrifon llawn. Yn y naill achos neu'r llall, rhaid i'r fantolen gynnwys y datganiadau canlynol uwchben llofnod yr aelod dynodedig:

"Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar …….. (dd/mm/bbbb), yr oedd gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig hawl i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) gyda golwg ar bartneriaethau bach atebolrwydd cyfyngedig.

Mae'r aelodau'n cydnabod eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ynglŷn â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i gyrff PAC yn perthyn i'r drefn cyrff PAC bach."

Gall cyrff PAC bach sy'n cyflwyno mantolen lawn ddewis peidio â chynnwys copi o'r cyfrif elw a cholled. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r fantolen gynnwys hefyd ddatganiad ychwanegol i'r perwyl bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i gyrff PAC yn perthyn i'r drefn gyrff PAC bach.

3.5 Pa mor hir sydd gen i i gyflwyno cyfrifon wedi eu heithrio rhag archwilio ariannol i Dŷ'r Cwmnïau?

Cewch chi'r un amser i ffeilio cyfrifon wedi eu harchwilio a rhai wedi eu heithrio rhag archwilio, ac mae'r gyfraith yn gosod yr un cosbau am ffeilio pob math o gyfrifon hwyr. Gweler pennod 4.

3.6 Oes rhaid i BAC a gafodd ei heithrio rhag archwilio ariannol anfon cyfrifon at ei haelodau a'i ddyledebwyr o hyd?

Oes. Mae gan aelodau a dyledebwyr hawl i dderbyn neu fynnu copïau o gyfrifon a'r adroddiadau cysylltiedig.

3.7 Os nad yw fy Mhartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig yn masnachu, oes rhaid iddi gyflwyno cyfrifon o hyd?

Rhaid i bob PAC, p'un a fo'n masnachu neu beidio, gyflwyno cyfrifon i Dŷ'r Cwmnïau. Ond caiff PAC hawlio cael ei heithrio rhag archwiliad ariannol fel 'PAC segur' lle na fuodd yn masnachu yn ystod y flwyddyn ariannol, ac os bydd yn bodloni rhai meini prawf eraill. Does dim angen i gyrff PAC segur sy'n gymwys benodi archwilwyr ariannol ac fe allan nhw gyflwyno cyfrifon blynyddol symlach fyth i Dŷ'r Cwmnïau.

Am ragor o wybodaeth ynghylch cyfrifon cyrff PAC segur, gweler pennod 7.

Pennod 6
Cyrff PAC canolig eu maint

Beth yw PAC ganolig ei maint?

Fel gyda Phac fach, pennir PAC ganolig yn ôl ei throsiant busnes, cyfanswm ei mantolen (sy'n golygu cyfanswm yr asedion) a nifer cyfartalog ei gweithwyr.

Caiff PAC ganolig baratoi cyfrifon yn unol â darpariaethau arbennig sy'n gymwys i gyrff PAC canolig eu maint. Mae hyn yn golygu bod modd iddyn nhw ddewis cyflwyno llai o wybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau.

Ni all rhai cyrff PAC gwasanaeth ariannol na chyrff PAC y derbynnir eu gwarannoedd ar gyfer masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio o fewn yr AEE fod yn gymwys fel cyrff PAC canolig.

Yn yr un modd, ni all cyrff PAC sy'n rhan o grŵp y mae iddo aelodau sy'n gwmnïau cyhoeddus neu'n cyrff PAC gwasanaeth ariannol o fath arbennig,

fod yn gymwys fel rhai canolig at ddibenion cyfrifeg – gweler pennod 6, cwestiwn 1 isod.

Os credwch y gallai'r BAC fod yn gymwys fel un ganolig, hwyrach yr hoffech chi ystyried ymgynghori â chyfrifydd proffesiynol cyn paratoi cyfrifon.

1 Bod yn gymwys fel canolig ei maint

1.1 Beth yw'r amodau i fod yn gymwys fel PAC ganolig?

I fod yn BAC ganolig, rhaid bodloni o leiaf dau o'r amodau canlynol:

- rhaid i'r trosiant blynyddol beidio â bod yn fwy na £25.9 miliwn;
- rhaid i gyfanswm y fantolen beidio â bod yn fwy na £12.9 miliwn;
- rhaid i nifer cyfartalog y gweithwyr beidio â bod yn fwy na 250.

Os nad dyma gyfnod cyfrifeg cynta'r BAC, rhaid iddi fod wedi bod yn gymwys fel un canolig ei maint yn y cyfnod blaenorol – Pennod 6- gweler 1.3.

1.2 Oes yna gyrff PAC a gaiff eu hepgor o'u trin fel rhai canolig?

Oes. Os yw PAC, neu os oedd unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol, yn un o'r canlynol, caiff ei hepgor o'i thrin fel un ganolig ei maint:

- PAC y derbynnir ei gwarannoedd ar gyfer masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio yn un o wladwriaethau'r AEE;
- PAC sydd –
    - â chaniatâd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (c.8) i ddilyn gweithgarwch wedi ei reoleiddio, neu
    - yn dilyn gweithgarwch yn y farchnad yswiriant; neu
- aelod o grŵp anghymwys.

Mae grŵp yn anghymwys os yw unrhyw un o'i aelodau:

- yn gwmni cyhoeddus;
- yn gorff corfforaethol (ar wahân i gwmni) y caiff ei gyfrannau eu derbyn i'w masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio;
- yn berson (ar wahân i gwmni bach neu BAC fach) sydd â chaniatâd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i ddilyn gweithgarwch wedi ei reoleiddio;

- yn gwmni bach neu'n BAC fach sy'n gwmni yswiriant awdurdodedig, yn gwmni bancio neu'n BAC fancio, yn ddosbarthydd e-arian, yn gwmni buddsoddi o dan drefn MiFID neu'n gwmni rheoli sy'n perthyn i UCITS; neu

- yn berson sy'n dilyn gweithgarwch yn y farchnad yswiriant.

1.3 A all PAC fod yn gymwys fel un ganolig bob blwyddyn?

At ei gilydd, bydd PAC yn gymwys fel un 'ganolig ei maint' yn ei chyfnod cyfrifeg cyntaf os yw'n bodloni'r amodau yn y flwyddyn honno. Mewn unrhyw gyfnodau dilynol, mae'n rhaid i BAC fodloni'r amodau yn y cyfnod hwnnw a'r cyfnod blaenorol.

Ond os nad yw PAC oedd yn gymwys fel un ganolig mewn un cyfnod yn cwrdd â'r meini prawf mwyach ar gyfer bod yn ganolig yn y cyfnod nesaf, caiff barhau i hawlio'r eithriadau sydd ar gael ar gyfer y cyfnod nesaf. Os bydd y BAC honno wedyn yn mynd yn ôl i fod yn ganolig drwy fodloni'r meini prawf, bydd yr eithrio'n parhau'n ddi-dor.

2 Cyfrifon PAC ganolig

2.1 Beth yw cynnwys cyfrifon PAC ganolig?

Mae'n rhaid i gyfrifon ganolig gynnwys:

- adroddiad archwilydd ariannol;
- cyfrif elw a cholled;
- mantolen wedi ei llofnodi gan aelod dynodedig;
- nodiadau i'r cyfrifon; a hefyd
- cyfrifon grŵp (lle bo'r rheiny'n gymwys)

2.2 Pa eithriadau sydd ar gael i gyrff PAC canolig?

Caiff cyrff PAC canolig sy'n paratoi cyfrifon o dan y Ddeddf Cwmnïau fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC (ond nid cyfrifon IAS) hepgor datgeliadau'n ymwneud â chydymffurfio â safonau cyfrifeg a thrafodion parti cysylltiedig o'r cyfrifon y byddan nhw'n eu dosbarthu ymhlith eu haelodau.

Gall cyrff PAC canolig sy'n paratoi cyfrifon o dan y Ddeddf Cwmnïau fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC (ond nid cyfrifon IAS) ddewis ffeilio fersiwn ychydig byrrach o'r cyfrif elw a cholled.

Gweler rheoliad 4 o Reoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Mawr a Chanolig Atebolrwydd Cyfyngedig 2008.

2.3 Beth mae'n rhaid i BAC ganolig ei gyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid i gyfrifon cryno PAC ganolig ei maint gynnwys:

- y cyfrif cryno elw a cholled (rhaid i hwn fod yn llawn wrth baratoi cyfrifon IAS);
- y fantolen lawn;
- adroddiad archwilio ariannol arbennig; a
- nodiadau i'r cyfrifon.

Dylai adroddiad archwilio ariannol arbennig ddweud bod gan y PAC hawl, ym marn yr archwilydd, i gyflwyno cyfrifon cryno yn unol ag adran 445(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008), a bod y rheiny wedi eu paratoi'n briodol yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau (Cyfrifon) Partneriaethau Mawr a Chanolig Atebolrwydd Cyfyngedig 2008.

Rhaid i'r fantolen gynnwys datganiad uwchlaw llofnod yr aelod dynodedig i'r perwyl bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â darpariaethau arbennig adran 445(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008), gyda golwg ar bartneriaethau canolig eu maint.

2.4 Oes yna reolau arbennig i grwpiau bach?

Nac oes. Mae'n rhaid i riant PAC ganolig baratoi cyfrifon grŵp a'u cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau.

Pennod 7
Cyrff PAC segur

Beth yw PAC segur?

Mae PAC yn segur os na chynhaliodd 'unrhyw drafodion cyfrifeg arwyddocaol' yn ystod y cyfnod cyfrifeg. Mae trafodyn cyfrifeg arwyddocaol yn un y dylai'r BAC ei gynnwys yn ei chofnodion cyfrifeg.

Wrth ystyried a yw PAC yn segur, gellir anwybyddu'r trafodion ariannol a ganlyn:

- ffioedd wedi eu talu i'r Cofrestrydd am newid enw PAC a ffeilio ffurflenni blynyddol; a hefyd
- talu cosbau sifil am gyflwyno cyfrifon yn hwyr.

1 – Amodau ar gyfer eithrio cyrff PAC segur rhag archwilio ariannol

1.1 Beth yw'r amodau y mae'n rhaid i BAC segur eu bodloni i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol?

Bydd PAC segur wedi ei heithrio rhag archwilio ffurfiol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno:

- os yw'n segur ers ei ffurfio; neu
- os yw'n segur ers diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol a'i bod yn cwrdd â'r amodau canlynol:
    - bod ganddi hawl i baratoi cyfrifon unigol yn unol â'r drefn cyrff PAC bach;
    - nad oes rhaid iddi baratoi cyfrifon grŵp; a hefyd
    - ei bod yn gymwys fel 'PAC fach' ar gyfer y flwyddyn honno (gweler pennod 5), neu y byddai wedi bod yn gymwys fel un fach oni bai am y ffaith ei bod yn aelod o grŵp anghymwys.

1.2 Pa eithriadau sydd ar gael?

Gall cyrff PAC segur hawlio cael eu heithrio rhag archwilio ariannol. Dim ond mantolen gryno a nodiadau y mae angen iddyn nhw eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Does dim rhaid cynnwys cyfrif elw a cholled gyda chyfrifon PAC segur wrth eu ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Ni all PAC fanteisio ar y rhyddhad rhag archwilio ariannol i BAC segur os oedd, unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw:

- yn gwmni yswiriant awdurdodedig, yn BAC fancio, yn ddosbarthydd e-arian, yn gwmni buddsoddi o dan drefn MiFID neu'n gwmni rheoli'n perthyn i UCITS; neu
- yn dilyn gweithgarwch yn y farchnad yswiriant.

Does dim hawl gan BAC i'r eithrio rhag archwilio ariannol ar gyfer BAC segur oni bai bod ei mantolen yn cynnwys y datganiadau y cyfeirir atyn nhw ym mhennod 7, cwestiwn 2.2 isod.

2 – Cyfrifon PAC segur

2.1 Pa wybodaeth y mae'n rhaid i gyfrifon PAC segur ei chynnwys?

Does dim angen i gyfrifon PAC segur a gaiff eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau gynnwys cyfrif elw a cholled. Gwelir mantolenni enghreifftiol ar ddiwedd y bennod hon.

Mae cyfrifon segur sydd heb eu harchwilio'n ffurfiol yn llawer symlach na chyfrifon PAC sy'n masnachu, ond mae'n rhaid iddyn nhw gynnwys:

- mantolen yn ymgorffori datganiadau uwchben llofnod yr aelod dynodedig i'r perwyl bod y BAC yn segur drwy gydol y cyfnod cyfrifeg. Gwelir testun llawn y datganiadau sydd eisiau ym mhennod 7, cwestiwn 2.2;

- ffigurau unrhyw flwyddyn flaenorol er mwyn eu cymharu – er na fo eitemau incwm na gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol; a

- rhai nodiadau i'r fantolen – gwelir rhestr lawn o'r eitemau sydd i'w bodloni ar ddiwedd y bennod hon.

Nid yw'r hawl i baratoi mantolen segur i'w ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau yn effeithio ar rwymedigaethau'r BAC i baratoi cyfrifon llawn i'w haelodau – gweler pennod 3.

2.2. Pa ddatganiadau y mae angen imi eu gwneud ar y fantolen?

Dylai'r datganiadau canlynol ymddangos uwchben llofnod yr aelod dynodedig:

> "Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar …….. (dd/mm/bbbb), yr oedd gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig hawl i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol o dan adran 480 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008), gyda golwg ar bartneriaethau segur atebolrwydd cyfyngedig.
>
> Mae'r aelodau'n cydnabod eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ynglŷn â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon."

Rhaid i BAC sy'n gymwys fel un fach gynnwys hefyd y datganiad canlynol ar y fantolen:

> "Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n gymwys i bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig yn perthyn i'r drefn partneriaethau bach."

2.3. Pa mor hir sydd gen i i gyflwyno cyfrifon segur i Dŷ'r Cwmnïau?

Caniateir yr un amser ar gyfer ffeilio a gosodir yr un cosbau am ffeilio hwyr ag sy'n gymwys ar gyfer cyfrifon eraill. Gweler pennod 4.

2.4 Beth sy'n digwydd os bydd fy MHAC yn ailddechrau masnachu?

Bydd y BAC yn peidio â chael ei heithrio rhag archwiliad ariannol fel PAC segur os bydd:

- yn dechrau gweithgarwch busnes neu weithgarwch masnachu yn ystod y cyfnod ariannol; neu

- heb fod yn gymwys mwyach am ryw reswm arall.

Pe digwyddai'r naill neu'r llall o'r rhain, gallai fod angen cyflwyno cyfrifon llawn ar gyfer y flwyddyn ariannol pryd y peidiodd y BAC â chael ei heithrio ac

efallai y byddai eisiau i'r aelodau dynodedig benodi archwilwyr ariannol i'r BAC. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddai'r BAC yn gymwys i gael ei heithrio fel PAC o faint canolig neu fach. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion archwilio i BAC ac am eithrio cyrff PAC bach rhag archwilio ariannol i'w chael ym mhenodau 5 a 7 o'r canllaw hwn.

Mantolenni segur enghreifftiol i'w cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau :

Mae'r patrymau ar y tudalennau canlynol yn ganllaw i'r wybodaeth y mae angen ichi ei chynnwys (oni bai bod y PAC wedi dewis paratoi cyfrifon yn unol â Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol).

Bwriedir i'r patrymau hyn adlewyrchu'r holl asedion a rhwymedigaethau posib a all fod gan BAC, ond dim ond os oes swm ar wahân i ddim byd i'w gofnodi y mae angen ichi gynnwys pennawd penodol. Does dim angen i'r llythrennau a'r rhifau a welir yng nghyswllt y penawdau a'r is-benawdau gael eu dangos ym mantolen y BAC.

Fel eglureb yn unig y bwriedir y mantolenni enghreifftiol hyn. Peidiwch â chopïo'r fersiwn yn y canllaw hwn i'w gyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau.

Os bu'r BAC yn masnachu mewn blwyddyn ariannol flaenorol, cadwch mewn cof y bydd mantolen eich blwyddyn flaenorol yn dangos sefyllfa ariannol y BAC fel yr oedd ar y pryd. Os na fu trafodion cyfrifeg ers hynny, hwyrach na fyddwch chi ond yn cario ymlaen ffigurau'r llynedd.

Mae ddau ddiwyg – wedi eu marcio 1 a 2 – y gellir dilyn y naill neu'r llall ohonyn nhw. Mae cynnwys y ddau ddiwyg yr un fath: dim ond cyflwyno penawdau'r fantolen mewn trefn wahanol y maen nhw.

Mae'n rhaid i'r fantolen fantoli:

- Dan ddiwyg 1, rhaid i'r asedion net fod yn gyfartal â chyfanred y cyfalaf a'r cronfeydd wrth gefn.
- Dan ddiwyg 2, rhaid i'r asedion fod yn gyfartal â'r rhwymedigaethau (gan gynnwys y cyfalaf a'r cronfeydd wrth gefn fel eitemau mantoli).

Rhaid i bob cofnod fod yn swm mewn ffigurau (nid geiriau) neu'n '0.00'. Ni fydd Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn unrhyw ddogfen sy'n cofnodi 'Dim' lle dylai ffigur ymddangos.

Rhaid i ddyddiad diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn flaenorol fod yn bennawd uwchben pob colofn o ffigurau.

Ar gyfer y ddau ddiwyg, mae'r materion sydd i'w cynnwys yn y nodiadau i'r fantolen, lle bo'r rheiny'n briodol, i'w gweld ar ddiwedd pob enghraifft isod.

Wrth baratoi'ch cyfrifon, byddwch cystal â dilyn canllawiau pennod 3.

MANTOLEN CWMNI SEGUR DIWYG 1

Rhif y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig: .....

Enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig: .....

MANTOLEN AR ../../....

	BLWYDDYN GYFREDOL	BLWYDDYN FLAENOROL
A. ASEDION SEFYDLOG		
I. Asedion anniriaethol	XX	XX
II. Asedion diriaethol	XX	XX
III. Buddsoddiadau	XX	XX
	XXX	XXX
B. ASEDION CYFREDOL		
I. Stociau	XX	XX
II. Dyledwyr	XX	XX
III. Buddsoddiadau	XX	XX
IV. Arian yn y banc ac mewn llaw	XX	XX
	XXX	XXX
C. BLAENDALIADAU AC INCWM WEDI HEL	XX	XX
D. CREDYDWYR: SYMIAU'N DOD YN DDYLEDUS CYN PEN BLWYDDYN	(XX)	(XX)
E. ASEDION/RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL NET	XXX	XXX
F. CYFANSWM YR ASEDION NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL	XXX	XXX
G. CREDYDWYR: SYMIAU'N DOD YN DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN	(XX)	(XX)
H. DARPARIAETH AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU	(XX)	(XX)
I. CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG	(XX)	(XX)
ASEDION NET	XXX	XXX
J. BENTHYCIADAU A DYLEDION ERAILL DYLEDUS I AELODAU		

K. BUDDIANNAU ERAILL AELODAU		
I. Cyfalaf aelodau	XX	XX
II. Cronfa adbrisio wrth gefn	XX	XX
III. Cronfeydd eraill wrth gefn	XX	XX
CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN	XXX	XXX

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar …….. (dd/mm/bbbb), yr oedd gan y bAC hawl i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol o dan adran 480 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) gyda golwg ar gyrff PAC segur.

Mae'r aelodau'n cydnabod eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ynglŷn â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon.

Cymeradwywyd gan yr aelodau ar .....(dyddiad)

a

llofnodwyd ar eu rhan gan .....(Aelod dynodedig)

MANTOLEN CWMNI SEGUR DIWYG 2

Rhif y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig: .....

Enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig: .....

MANTOLEN AR ../../….

	BLWYDDYN GYFREDOL	BLWYDDYN FLAENOROL
ASEDION		
A. ASEDION SEFYDLOG		
I. Asedion anniriaethol	XX	XX
II. Asedion diriaethol	XX	XX
III. Buddsoddiadau	XX	XX
	XXX	XXX
B. ASEDION CYFREDOL		
I. Stociau	XX	XX
II. Dyledwyr	XX	XX
III. Buddsoddiadau	XX	XX
IV. Arian yn y banc ac mewn llaw	XX	XX
CYFANSWM YR ASEDION	XXX	XXX
C. RHAGDALIADAU AC INCWM WEDI HEL		
RHWYMEDIGAETHAU		
A. BENTHYCIADAU A DYLEDION ERAILL DYLEDUS I AELODAU		
B. BUDDIANNAU ERAILL AELODAU		
I. Cyfalaf aelodau	XX	XX
II. Cronfa adbrisio wrth gefn	XX	XX
III. Cronfeydd eraill wrth gefn	XX	XX
	XXX	XXX
C. DARPARIAETH AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU AC ARWYSTLON	XX	XX
D. CREDYDWYR	XX	XX
E. CRONIADAU AC INCWM GOHIRIEDIG	XX	XX
CYFANSWM Y RHWYMEDIGAETHAU	XXX	XXX

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar ……..... (dd/mm/bbbb), yr oedd gan y BAC hawl i gael ei heithrio rhag archwilio ariannol o dan adran 480 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008) gyda golwg ar gyrff PAC segur.

Mae'r aelodau'n cydnabod eu cyfrifoldebau am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ynglŷn â chofnodion cyfrifeg a pharatoi cyfrifon.

Cymeradwywyd gan yr aelodau ar .....(dyddiad)

a

llofnodwyd ar eu rhan gan .....(Aelod dynodedig)

Nodiadau i fantolen PAC segur

Rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol fel nodiadau i'r fantolen:

- polisïau cyfrifeg, gan gynnwys rhai'n ymwneud â dibrisiant a gostyngiad gwerth asedion;
- gwybodaeth am fuddiannau aelodau;
- gwybodaeth am asedion sefydlog;
- manylion am ddyledrwydd;
- y sail ar gyfer troi i arian sterling symiau a gyfleid yn wreiddiol yn arian breiniol gwledydd tramor;
- gyda golwg ar bob eitem uchod (ar wahân i asedion sefydlog), y symiau cyfatebol ar gyfer y flwyddyn cynt;
- manylion unrhyw is-ymgymeriadau a'r cyfrannau a ddelir ynddyn nhw, ynghyd â'r rheswm pam nad oes angen cyfrifon grŵp;
- lle bo'r BAC wedi gweithredu'n asiant dros unrhyw berson, ei bod wedi gweithredu felly; a
- gwybodaeth am asedion ariannol sefydlog y gallesid fod wedi eu cynnwys yn ôl gwerth teg ond a gynhwyswyd yn y cyfrifon uwchlaw eu gwerth teg, a lle na wnaed darpariaeth ar gyfer gostyngiad eu gwerth.

Yn ychwanegol, mae'n bosib y bydd rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol am is-ymgymeriadau:

- manylion unrhyw ymgymeriadau y mae gan y BAC 'ddaliant sylweddol' ynddyn nhw – er enghraifft, enw a chyfeiriad y busnes;
- enw rhiant PAC eitha'r BAC, ac (os yw'n hysbys) gwlad ei chorffori;
- enwau rhiant gyrff PAC cyfryngol arbennig a gwledydd eu corffori neu (os nad ydyn nhw wedi eu corffori) cyfeiriadau eu prif fannau busnes; a
- manylion rhai benthyciadau, gwarantau a thrafodion tebyg eraill gan y BAC o blaid cyfarwyddwyr ac eraill.

Pennod 8
Archwilwyr Ariannol

1 Penodi archwilwyr ariannol

1.1. Beth yw archwilydd ariannol?

Mae archwilydd ariannol yn berson sy'n llunio ac yn cyflwyno i aelodau'r BAC adroddiad annibynnol yn dweud a gafodd cyfrifon blynyddol eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC, ynghyd â'r fframwaith adrodd ariannol sy'n gymwys. Rhaid i'r adroddiad ddweud a yw'r cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg ar faterion y BAC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac ar yr elw a'r golled am y flwyddyn.

1.2. Oes rhaid i gyfrifon pob PAC gael eu harchwilio'n ffurfiol?

Nac oes. Os ydyn nhw'n gymwys i gael eu heithrio ac am fanteisio ar eithriad felly, does dim rhaid i'r mwyafrif o gyrff PAC bach na chyrff PAC segur drefnu i'w cyfrifon gael eu harchwilio'n ffurfiol.

Mae rhagor o wybodaeth am eithrio cyrff PAC bach a rhai segur rhag archwilio ariannol i'w chael ym mhenodau 5. a 7.

1.3. Sut penodir archwilydd?

Yr aelodau dynodedig fydd yn penodi archwilydd ariannol cynta'r BAC. Wedyn, gall yr aelodau benodi neu ailbenodi archwilydd o fewn 28 diwrnod i'r aelodau dynodedig ddosbarthu'r cyfrifon ymhlith yr aelodau neu ddiwedd y cyfnod a bennwyd ar gyfer eu dosbarthu. Ond os na wnânt hynny, bydd yr archwilydd yn dal mewn swydd nes i'r aelodau benderfynu ailbenodi'r archwilydd, neu benodi un yn ei (l)le, oni bai bod cytundeb y BAC yn mynnu ailbenodiad gwirioneddol.

1.4. Beth yw gwaith archwilydd ariannol?

Bydd yr archwilydd ariannol yn bwrw golwg dros adroddiadau, cyfrifon a chofnodion cyfrifeg y BAC ac yn paratoi adroddiad i'r aelodau.

Rhaid i adroddiad yr archwilydd ariannol gynnwys:

- Cyflwyniad yn pennu'r cyfrifon a gafodd eu harchwilio a'r fframwaith ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi (sef, p'un ai trefn UK GAPP neu drefn IAS wedi ei mabwysiadu i'w defnyddio o fewn yr Undeb Ewropeaidd).
- Disgrifiad o gwmpas yr archwiliad ariannol, yn pennu'r safonau cyfrifeg a ddilynwyd wrth archwilio.
- Datganiad yn nodi p'un a gafodd y cyfrifon, ym marn yr archwilydd, eu paratoi'n briodol yn unol â Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso at gyrff PAC).

- Datganiad yn nodi a yw'r cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg ar faterion ariannol y BAC neu (yn achos cyfrifon grŵp) ar faterion grŵp y BAC.
- Os yw'r archwilydd o'r farn nad yw'r BAC wedi cadw cofnodion cyfrifeg digonol, datganiad i'r perwyl hwnnw.
- Os na roddwyd i'r archwilydd yr holl wybodaeth oedd angen i gwblhau'r adroddiad, datganiad i'r perwyl hwnnw.
- Gall adroddiad yr archwilydd fod naill ai'n amodol neu'n ddiamod a rhaid iddo gynnwys cyfeiriad at unrhyw faterion yr hoffai'r archwilydd dynnu sylw atyn nhw o ran pwyslais heb amodi'r adroddiad.

Rhaid i'r archwilydd lofnodi a dyddio'r adroddiad a rydd i aelodau'r bartneriaeth wrth gwblhau'r archwilio ariannol.

Lle mae'r archwilydd ariannol yn gwmni, mae'n rhaid i'r uwch-archwilydd statudol lofnodi'r adroddiad archwilio yn ei (h)enw ei hun ar ran y cwmni. Rhaid iddo/iddi hefyd ddyddio'r llofnod. Rhaid nodi enw'r uwch-archwilydd ariannol yng nghopïau cyhoeddedig yr adroddiad archwilio. Rhaid i gopïau o adroddiadau archwilio a gaiff eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau nodi enw'r cwmni archwilio a'r uwch-archwilydd statudol, a bod wedi eu llofnodi gan yr archwilydd neu (lle mae'r archwilydd yn gwmni) gan rywun a awdurdodwyd i lofnodi ar ran y cwmni.

1.5. Oes yna eithrio rhag nodi enw'r archwilydd ariannol ar yr adroddiad archwilio?

Oes. Os teimla'r BAC fod peryg y gallai'r archwilydd neu unrhyw un arall ddioddef trais neu fygwth difrifol o ganlyniad i nodi enw'r archwilydd (neu enw'r "uwch-archwilydd statudol" a lofnododd yr adroddiad ar ran y cwmni archwilio) ar gopïau ffeiliedig neu gyhoeddedig o'r adroddiad, caiff benderfynu hepgor yr enw o'r copïau hynny.

Peidiwch ag anfon copi o'r penderfyniad hwn i Dŷ'r Cwmnïau ond dylech chi anfon hysbysiad amdano i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Ysgrifennydd Gwladol
Blwch Post 4082
Caerdydd
CF14 3WE

Rhaid i'r hysbysiad nodi –

- enw a rhif cofrestru'r BAC;
- blwyddyn ariannol y BAC y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; a hefyd
- enw'r archwilydd neu (lle mae'r archwilydd yn gwmni) enw'r sawl a lofnododd yr adroddiad fel uwch-archwilydd statudol.

Byddai angen i'r adroddiad archwilio a gaiff ei atodi wrth y cyfrifon gynnwys y datganiad canlynol:

“Yn unol ag adran 506 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y cafodd honno ei chymhwyso gan Reoliadau (Cyfrifon ac Archwilio Ariannol) Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cymhwyso Deddf Cwmnïau 2006) 2008), mae’r BAC wedi penderfynu na ddylid nodi enw’r archwilydd ariannol.”

1.6. A gaiff fy nghyfrifydd fod yn archwilydd ariannol imi?

Rhaid i archwilydd fod yn annibynnol ar y BAC. Felly, ni all rhywun gael ei b/phenodi’n archwilydd ariannol os yw:

- yn swyddog neu’n weithiwr i’r BAC neu ymgymeriad cysylltiedig;
- yn bartner neu’n weithiwr i berson felly, neu’n bartneriaeth y mae person felly’n bartner o dani.

Os nad yw’ch cyfrifydd yn perthyn i’r un o’r categorïau uchod ac os yw’n archwilydd cofrestredig wedi ei (g)oruchwylio gan gorff goruchwylio cydnabyddedig, caiff weithredu’n archwilydd ariannol i’r BAC.

Cofiwch: Nid yw pob aelod o gorff goruchwylio cydnabyddedig yn gymwys i weithredu’n archwilydd ond bydd y corff priodol yn gallu dweud wrthych chi a yw unigolyn neu gwmni arbennig yn archwilydd ariannol cofrestredig.

1.7. Beth a phwy yw cyrff goruchwylio cydnabyddedig?

Dyma gyrff a gydnabyddir gan y Bwrdd Goruchwylio Proffesiynol ar gyfer Cyfrifeg fel rhai sydd â rheolau y bwriedir iddyn nhw sicrhau bod archwilwyr ariannol o'r cymhwyster proffesiynol uchaf. Mae gan bob corff cydnabyddedig reoliadau caeth a chôd disgyblu'n rheoli ymddygiad eu harchwilwyr ariannol cofrestredig. Y pum corff cydnabyddedig yw:

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban
21 Haymarket Yards
Edinburgh
EH2 5BH
Ffôn: 0131 347 0100

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Level 1
Metropolitan Court
321 Avebury Boulevard
Milton Keynes
MK9 2FZ
Ffôn: 01908 248100

Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon
Chartered Accountants House
87-89 Pembroke Road
Dublin 4
Ffôn: 0035 3166 80400

Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
2 Central Quay
89 Hydepark Street
Glasgow
G3 8BW
Ffôn: 0141 582 2000

Cymdeithas y Cyfrifwyr Cyhoeddus Awdurdodedig
10 Lincoln's Inn Fields
Llundain
WC2A 3BP
Ffôn: 020 7059 5900

COFIWCH: Gallwch chi ofyn i'ch archwilydd ariannol gadarnhau ei f/bod wedi cofrestru gydag un o'r cyrff hyn, neu fe allwch gysylltu â'r corff priodol.

1.8. Ai â chyfrifon blynyddol a chofnodion cyfrifeg yn unig y bydd archwilydd ariannol yn ymwneud?

Ie. Fodd bynnag, does dim sy'n eich rhwystro rhag cyflogi archwilydd ariannol at ddibenion eraill, fel trefnu'r llyfrau neu'r ffurflen dreth, ar yr amod nad yw'n cyfrannu at reolaeth y BAC. Dylech chi gytuno ar lythyr cyflogi sy'n nodi dyletswyddau'r archwilydd. Er enghraifft, hwyrach y bydd y BAC am i'r archwilydd baratoi adroddiad rheoli wedi'r archwiliad ariannol, gan restru'r holl fân wallau a welodd hyd yn oed os cawsant eu cywiro.

Adran 2
Diswyddo archwilwyr ariannol

2.1. A ellir diswyddo archwilydd ariannol?

Gellir. Caiff aelodau'r BAC symud archwilydd ariannol o'i swydd unrhyw adeg yn ystod tymor ei (g)wasanaeth, neu benderfynu peidio ag ailbenodi'r archwilydd am gyfnod pellach. Rhaid iddyn nhw roi i'r archwilydd rybudd saith diwrnod o'u bwriad. Wedyn, bydd gan yr archwilydd hawl i ymateb yn ysgrifenedig a mynnu bod yr ymateb hwnnw'n cael ei anfon at aelodau'r BAC.

Er y gall PAC symud archwilydd ariannol o'i swydd unrhyw adeg, gall fod gan yr archwilydd hawl i ddigolledi neu iawndal yn sgil terfynu ei b/phenodiad.

Lle bo archwilydd ariannol yn peidio â dal swydd am unrhyw reswm, rhaid iddo/i adneuo datganiad yn swyddfa gofrestredig y BAC. Dylai'r datganiad nodi unrhyw amgylchiadau ynghylch peidio â dal swydd y cred yr archwilydd y dylid eu dwyn i sylw aelodau a chredydwyr y BAC.

- Os oes unrhyw amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r BAC anfon copi o'r datganiad at ei holl aelodau oni wneir cais llwyddiannus i'r llys am atal hyn. Os na chaiff yr archwilydd ariannol rybudd am gais drwy'r llys cyn pen 21 diwrnod wedi iddo/i adneuo'r datganiad gyda'r BAC, rhaid i'r

archwilydd, cyn pen saith diwrnod pellach, anfon copi o'r datganiad i Dŷ'r Cwmnïau at ddibenion cofnod cyhoeddus y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

- Os nad oes amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r archwilydd ariannol adneuo datganiad gyda'r bartneriaeth i'r perwyl hwnnw. Does dim angen cylchredeg datganiad felly ymhlith yr aelodau.

Pennod 9
Ansawdd dogfennau papur

1. Beth sy'n digwydd i ddogfennau a gaiff eu hanfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Caiff y dogfennau a'r ffurflenni a gyflwynwch chi i Dŷ'r Cwmnïau eu rhoi i gadw a defnyddir y ddelwedd electronig fel dogfen waith.

Wrth i aelod o'r cyhoedd adolygu cofnod y BAC, fe wêl y ddelwedd electronig wedi ei hatgynhyrchu ar-lein. Felly, mae'n bwysig nid yn unig bod y gwreiddiol yn ddarllenadwy ond hefyd y gellir ei ddefnyddio i greu copi clir.
Mae gweddill y bennod hon yn gosod ychydig o ganllawiau ansawdd i'w dilyn wrth baratoi cyfrifon a dogfennau eraill i'w ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau.

2. Beth sy'n digwydd os nad yw fy nogfennau'n bodloni'r canllawiau?

Gall Tŷ'r Cwmnïau wrthod dogfennau na ellir mo'u cipio'n electronig, gan roi rhybudd yn dweud pam eu bod nhw'n annerbyniol. Rhaid ichi gyflwyno copi derbyniol o fewn 14 diwrnod i'r rhybudd (fel arall, byddwn yn ystyried bod y gwreiddiol heb ei gyflwyno).

3. Sut dylai dogfennau gael eu gosod?

Rhaid i bob dogfen bapur a gaiff ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau nodi rhif cofrestru'r BAC mewn lle amlwg, a rhaid iddi gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir gan y Cofrestrydd gyda golwg ar eglurder y ddogfen honno.

Yn gryno, dylai dogfennau fod ar bapur gwyn plaen o faint A4 yn pwyso rhwng 80gms a 100gms gyda gorffeniad di-sglein. Dylai'r testun fod yn ddu, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ddwysedd cyson.

4. Wrth baratoi dogfen:

- defnyddiwch inc du neu deip du;
- defnyddiwch lythrennau cryf (mae rhai wynebau teip a phinnau ysgrifennu tenau cain yn rhoi copïau o ansawdd gwael);
- peidiwch ag anfon copi carbon;
- peidiwch â defnyddio matrics-argraffydd;

- cofiwch – gall ffotogopïau roi arlliw llwyd na fydd yn sganio'n dda;
- defnyddiwch bapur A4 gydag ymyl hael; a hefyd
- cynhwyswch rif y BAC ar y dde yng nghornel ucha'r tudalen cyntaf.

Cyfrifon sglein

Os ydych chi'n cynhyrchu cyfrifon sglein wedi eu hargraffu mewn lliwiau, byddwch cystal â chadw'r rheiny'n ôl i'ch aelodau ac eraill a fydd yn eu gwerthfawrogi. Mae arnon ninnau angen testun du ar bapur gwyn gyda gorffeniad di-sglein o hyd. Mae fersiwn teipiedig heb ei rwymo neu broflen yr argraffwyr yn ddelfrydol, ar yr amod bod y llofnodion angenrheidiol wedi eu cynnwys.

Bob blwyddyn, gwrthodwn tua 6,000 o setiau cyfrifon am na allwn mo'u sganio'n llwyddiannus. Y tri rheswm pennaf yw:

- Cyfrifon sglein
- Graddliwio ffigurau, e.e. i wahaniaethu rhwng y flwyddyn ariannol dan sylw a'r un flaenorol; a hefyd
- Ansawdd argraffu gwael.

5. Alla i gael rhagor o wybodaeth am hyn?

Am ganllawiau pellach ynglŷn â'n gofynion argraffu neu unrhyw un o'r gwasanaethau y soniwyd amdanyn nhw yn y canllaw hwn, ffoniwch 0303 1234 500.

Pennod 10
Gwybodaeth bellach

1. Sut dylwn i anfon gwybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau?

Gallwch chi gyflwyno dogfennau i'r Cofrestyrdd â llaw (yn bersonol neu drwy negesydd), gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc a thros y penwythnos, i Gaerdydd, Llundain a Chaeredin.

Gallwch chi hefyd gyflwyno dogfennau drwy'r post neu drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX).

Os anfonwch chi ddogfennau, byddwch cystal â'u cyfeirio i:

Ar gyfer cyrff PAC wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr	**Ar gyfer cyrff PAC wedi eu corffori yn yr Alban:**
Tŷ'r Cwmnïau Ffordd y Goron Caerdydd CF14 3UZ neu DX33050 Caerdydd 1	Companies House 4th Floor Edinburgh Quay 2 139 Fountainbridge Edinburgh EH3 9FF DX ED235 Edinburgh 1 neu LP-4 Edinburgh 2

Os ydych yn anfon dogfennau drwy'r post, drwy negesydd neu drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) a'ch bod yn dymuno cael derbynneb, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn darparu cydnabyddiaeth os amgaewch chi gopi o'ch llythyr eglurhaol gydag amlen stampiedig ac arni eich cyfeiriad dychwelyd. Bydd y côd bar a roddwn ar eich llythyr yn cyfleu'r dyddiad dod i law ac fe ddychwelwn y copi yn yr amlen a ddarparwch.

Sylwer: nid yw cydnabyddiaeth dod i law yn golygu bod dogfen wedi ei derbyn i'w chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Sylwer: Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau statudol eraill dros beiriant ffacs.

2. Ble galla i gael ffurflenni a chanllawiau?

Mae hwn yn un o gyfres o ganllawiau gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n rhoi arweiniad syml i'r Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae ffurflenni statudol a chanllawiau ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i'w sicrhau yw drwy'n gwefan www.companieshouse.gov.uk neu drwy ffonio 0303 1234 500.

Gellir hefyd gael ffurflenni gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau.

sut i gysylltu â ni

Canolfan Cysylltu: 0303 1234 500*
Mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.companieshouse.gov.uk/

*Er dibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd,
fe allai eich galwad gael ei monitro

Caerdydd:
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ
Ffacs: 029 2038 0900

Caeredin:
Companies House
4th Floor
Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF
Ffacs: 0131 535 5820

Llundain:
Companies House
21 Bloomsbury Street, London WC1B 3XD
Ffacs: 029 2038 0900